**Awdurdod Parc Cenedlaethol**

**11 Medi 2024**

**Yn bresennol (yn bersonol)**
Cynghorydd D Clements (Cadeirydd)
Cynghorydd T Evans, Dr M Havard, Cynghorydd M James, Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, Cynghorydd A Tinley, Cynghorydd V Thomas a'r Cynghorydd M Wiggins.

**Yn bresennol (o bell)**
Cynghorydd M Bowen, Cynghorydd C George, Cynghorydd SL Hancock MBE, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, a'r Cynghorydd C Williams BEM.

**Hefyd yn bresennol:**
Phil Barlow (Swyddog Ymchwil ac Arfarnu Cynaliadwyedd), Emma Gladstone (Rheolwr Polisi Strategol), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Michael Kent (Swyddog Monitro), Gayle Lister (Swyddog Cynllunio), Caroline Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), Sara Morris (Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu), Mair Thomas (Cydlynydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth), a Michelle Webber (Pennaeth Adfer Byd Natur).

[ Parc Llanion, Doc Penfro ac o Bell
10.00am – 11:45am]

**1. Materion Personol**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth y Cynghorydd P Morgan yn ddiweddar, gan dalu teyrnged iddo a diolch am ei wasanaeth enfawr i'r Awdurdod. Cafwyd munud o dawelwch er cof amdano.

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i'r Cynghorydd T Evans i'r Awdurdod.

**2. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Mrs J James, Mr GA Jones, Dr R Plummer a'r Cynghorydd B Price.

**3. Datgan Buddiannau**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

**4. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf 2024 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, **penderfynwyd** cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf 2024 a'u llofnodi heb unrhyw ddiwygiadau.

5. **Log Gweithredu a Materion yn Codi**

Cafwyd diweddariad ar yr Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd gan y Prif Weithredwr a amlinellodd y camau a gymerwyd eisoes a'r camau nesaf. Ychwanegodd mai nod y tîm oedd cwblhau'r adolygiad erbyn mis Tachwedd, ond gallai'r dyddiad hwn newid.

Gofynnodd y Cadeirydd am ddiweddariad ynghylch cam gweithredu 982, sef mesurau meintiol ar gyfer y Cynllun Rheoli Datblygu, a chadarnhawyd bod Prif Weithredwr Croeso Sir Benfro wedi'i hatgoffa o'r cais hwn a bod cyfarfod arall i'w drefnu i drafod hyn. Y gobaith oedd, unwaith y byddai'r dangosyddion wedi'u cytuno, y byddai'r dangosyddion hynny yn cael eu cyflwyno i gyfarfod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn y dyfodol.

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad byr ar y diffyg yn y gyllideb (cam gweithredu 962), gan roi gwybod bod gwaith yn mynd rhagddo yn fewnol, ond bod llawer o ansicrwydd yn parhau ynghylch setliad y gyllideb am y flwyddyn nesaf.

O ran cam gweithredu 998, eglurodd y Prif Weithredwr bod Llywodraeth Cymru yn y broses o ddatblygu Llawlyfr Llywodraethu. Awgrymwyd bod yr Awdurdod yn aros tan i'r llawlyfr gael ei gyhoeddi gan y gallai gynnwys mesurau i gefnogi cyflwyno hyfforddiant i Aelodau.

**Nodwyd.**

6. **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu'r digwyddiadau canlynol;

- Sioe'r Sir lle bu'n ymweld â sawl stondin a chynnal derbyniad i hyrwyddo'r Cynllun 'Cysylltu'r Arfordir'. Hefyd bu'n mynychu Brecwast y Llywydd lle cafodd gyfarfod rhagarweiniol gyda'r Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Huw Irranca-Davies. Roedd yr Awdurdod hefyd wedi noddi'r gystadleuaeth cneifio defaid.
- Gwelyau Wystrys Bae Angle gyda Phrif Weithredwr yr Awdurdod lle cyflwynwyd diweddariad ar y prosiect.
- Cyfarfod gydag Archwilio Cymru ar yr archwiliad o osod yr Amcanion Llesiant.

Roedd hi hefyd wedi mynychu angladd y diweddar Gynghorydd Peter Morgan lle bu nifer o bobl yn bresennol fel arwydd o barch.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i longyfarch a diolch i Liz Moore, Tywysydd Safle a Chyfrannwr i Raglen Addysg Castell Henllys oedd yn ymddeol ar ôl 30 mlynedd o wasanaeth gyda'r Awdurdod.

**Nodwyd.**

**7. Adroddiadau o gyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**
Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau er ystyriaeth/ gwybodaeth:

(i) Y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 17/07/2024;
(ii) Y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 15/05/2024;
(iii) Y Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 12/06/2024;
(iv) Y Fforwm Gwirfoddolwyr a gynhaliwyd ar 24/07/202.

**Penderfynwyd** mabwysiadu/ derbyn cofnodion y Pwyllgorau uchod.

**8. Lleoedd Gwag ar Bwyllgorau**
Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd bod lle gwag ar y Pwyllgor Adolygu Gweithredol ac ar y Grŵp Ymgynghorol Parth Cadwraeth Morol Skomer yn dilyn marwolaeth y Cynghorydd Peter Morgan.

Ar gynnig y Cynghorydd M James, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, **penderfynwyd** llenwi'r lleoedd gwag gan yr Aelodau a ganlyn:

i) Y Pwyllgor Adolygu Gweithredol: y Cynghorydd T Evans,
ii) Grŵp Ymgynghorol Parth Cadwraeth Morol Skomer: y Cynghorydd C George.

**9. Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl).**
Croesawodd y Cadeirydd y Swyddog Cynllunio (Polisi Strategol) a gyflwynodd yr Adroddiad Monitro Blynyddol am y flwyddyn 2023/24 ar Gynllun Datblygu Lleol 2 Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yr oedd yn ofynnol ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru cyn y 31ain o Hydref bob blwyddyn. Roedd yr adroddiad yn asesu i ba raddau yr oedd Strategaeth a Pholisïau CDLl 2 yn cael eu cyflawni. Roedd yr adroddiad yn mesur gwahanol ddangosyddion i asesu perfformiad y polisïau cynllunio unigol a nodir yn y CDLl, ac i roi darlun cyffredinol o'r amodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn y Parc. Roedd y canfyddiadau allweddol wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Awgrymodd Aelod y dylid cynnwys mwy o gyd-destun ar y newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth yn yr adroddiad, a gofynnodd hefyd i swyddogion sicrhau bod sylw digonol yn cael ei roi i'r Gymraeg fel sy'n ofynnol yn y Safonau Llunio Polisi yr oedd yr Awdurdod yn eu dilyn. Nodwyd y pwyntiau hyn gan y Swyddog.

Gofynnodd Aelod am ddiweddariad ar yr hyfforddiant a gynhaliwyd gydol y flwyddyn, ac mewn ymateb amlinellodd y Cyfarwyddwr Lle ac

Ymgysylltu yr hyfforddiant a hwyluswyd, a pha Swyddogion fu'n rhan o'r hyfforddiant.

Nodwyd bod yr ymatebion i'r ymgynghori ar gyfer yr ail adroddiad monitro blynyddol wedi'u cynnwys yn Atodiad B. Dywedodd y Cadeirydd bod yr ymatebion yn gyfyngedig, a gofynnodd am sicrwydd bod yr ymgynghoriad wedi'i hyrwyddo'n ddigonol. Ymatebodd y Swyddog, o gymharu â ffigurau'r llynedd a'r gyfradd ymateb a welwyd gan sefydliadau tebyg eraill, bod y gyfradd ymateb i ymgynghoriad yr Awdurdod yn gadarnhaol yn yr achos hwn.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Hancock MBE, **penderfynwyd**:

i) cymeradwyo'r ymatebion i'r sylwadau a dderbyniwyd yn Atodiad B.
ii) cymeradwyo'r Adroddiad Monitro Blynyddol (gweler Atodiad A) ar Gynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn y 31ain o Hydref 2024, gyda'r diwygiadau uchod.

**10. Adroddiad Blynyddol ar Gyflawni Amcanion Llesiant 2023/24**

Croesawodd y Cadeirydd y Cydlynydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth a gyflwynodd yr Adroddiad Blynyddol ar Gyflawni Amcanion Llesiant 2023/24. Roedd yr adroddiad yn amlygu perfformiad yr Awdurdod yn erbyn y gweithgareddau a nodir yn y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2023/24-2026/27 a'r Cynlluniau Cyflawni cysylltiedig ar gyfer 2023/24 a datblygiadau ychwanegol yn ystod y flwyddyn. Nodwyd bod nifer o'r setiau data oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad wedi'u cynnwys yn flaenorol mewn adroddiadau perfformiad a'u bod wedi'u hadolygu a'u diwygio wedyn lle bo angen.

Cyfeiriodd y Swyddog at wall ar dudalen 22 yr adroddiad, o dan 'Prosiectau Datgarboneiddio Cymunedol', ac eglurodd bod 11 o brosiectau datgarboneiddio wedi'u cwblhau fel rhan o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn hytrach na 10.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan Dr M Havard, **penderfynwyd** cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar Gyflawni Amcanion Llesiant 2023/24 a dirprwyo awdurdod i'r Swyddogion ymgorffori yn ôl y gofyn unrhyw fân newidiadau oedd angen eu gwneud (megis cywiriadau ffeithiol).

**11. Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb**

Cyflwynodd y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb am y flwyddyn 2023/24. Dywedwyd ei bod yn ofynnol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gorff rhestredig yng Nghymru

gynhyrchu adroddiad blynyddol erbyn y 31ain o Hydref bob blwyddyn. Eglurodd y Swyddog bod yr Awdurdod wedi cynnwys yr adroddiad hwn yn y blynyddoedd blaenorol fel rhan o'i Adroddiad Blynyddol ar Gyflawni Amcanion Llesiant. Fodd bynnag yn dilyn canllawiau gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, roedd adroddiad ar wahân wedi'i ddatblygu. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am recriwtio ac am gydraddoldeb ymhlith y gweithlu, ac yn dadansoddi data am y flwyddyn 2023/24 ac yn rhoi diweddariad yn erbyn y camau gweithredu yng Nghynllun Cydraddoldeb cyfredol yr Awdurdod.

Nodwyd bod yr Awdurdod yn ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid. Holodd Aelod a oedd fforymau oedd yn cynnwys dinasyddion hŷn hefyd yn cymryd rhan. Cadarnhaodd y Swyddog yr ymgysylltwyd â'r cyfryw fforymau yn hanesyddol. Fodd bynnag gan fod gan yr Awdurdod Swyddog Iechyd a Lles newydd yn ei swydd, byddai gwiriadau yn cael eu cynnal i sicrhau bod y gwaith hwn yn parhau.

Hefyd cafwyd peth trafodaeth ynghylch amrywiaeth ymhlith y staff ac Aelodau yr Awdurdod. Dywedodd y swyddogion bod y mater hwn yn faes heriol, ond bod gwaith ar y gweill i gynyddu'r nifer o ymgeiswyr.

Ar gynnig y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, a eiliwyd gan y Cynghorydd M James, **penderfynwyd** cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2023/24 a dirprwyo awdurdod i'r Swyddogion ymgorffori yn ôl yr angen unrhyw fân newidiadau (megis gwallau teipio, cywiriadau ffeithiol).

**12. Cynllun ac Amcanion Cydraddoldeb Drafft**

Cyflwynodd y Cydlynydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth y Cynllun Cydraddoldeb Drafft am y cyfnod 2025/2029 cyn i'r Cynllun symud ymlaen i ymgynghoriad mewnol ac allanol. Dywedodd y Swyddog bod adolygiad o'r amcanion a'r cynllun presennol wedi'i gynnal a bod cynllun drafft ar gyfer 2025-2029 wedi'i ddatblygu. Roedd yr adroddiad yn cynnwys amcanion drafft oedd i gyd yn nodau tymor hwy.

**Nodwyd.**

**13. Adroddiad ar Ddiogelu**

Croesawodd y Cadeirydd yr Arweinydd Tîm Dysgu a Chynhwysiant a gyflwynodd Adroddiad Blynyddol Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar Ddiogelu am y flwyddyn 2023/24. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth gefndir, manylion am y trefniadau diogelu, y polisi diogelu, trefniadau hyfforddi, manylion am y grŵp diogelu, a manylion am ddigwyddiadau diogelu.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â phwysigrwydd yr adroddiad a phwysigrwydd diogelu yn gyffredinol o fewn yr Awdurdod. Mewn ymateb i ymholiad gan Aelodau, cadarnhaodd y Swyddog bod y Polisi a'r Datganiad Diogelu wedi'u cynnwys yn yr un ddogfen a'u bod yn cael eu hadolygu ar y pryd. Ychwanegwyd y byddai'r ddogfen yn cael ei chyflwyno i gyfarfod o’r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn y dyfodol unwaith y byddai wedi'i hadolygu. Awgrymodd Aelod y dylid cynnwys amserlen ar gyfer yr adolygu yn yr Adroddiad Blynyddol, a nodwyd yr awgrym hwn gan y Swyddog.

Dywedwyd bod un digwyddiad diogelu wedi’i nodi, a holodd Aelod a oedd unrhyw wersi wedi'u dysgu o ganlyniad. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog bod y digwyddiad wedi atgoffa Swyddogion o bwysigrwydd bod yn wyliadwrus ac o gysylltu â sefydliadau allweddol. Ychwanegwyd bod y digwyddiad wedi rhoi sicrwydd i'r tîm bod proses yr Awdurdod yn effeithiol. Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod Tîm yr Awdurdod yn rhan o rwydwaith Diogelu o fewn y Sir lle gallai sefydliadau ddysgu oddi wrth ei gilydd i sicrhau bod eu prosesau diogelu mor gadarn â phosibl.

**Nodwyd.**

**14. Adroddiad Blynyddol ar Iechyd a Diogelwch**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad oedd yn crynhoi'r wybodaeth a gyflwynwyd gerbron cyfarfodydd o’r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol mewn un trosolwg o berfformiad Iechyd a Diogelwch yr Awdurdod o fis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024. Eglurodd y Prif Weithredwr bod adroddiadau Iechyd a Diogelwch wedi'u cyflwyno yn flynyddol hyd at 2018, a’r bwriad oedd cyflwyno’r adroddiadau hyn unwaith yn rhagor gerbron yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, er gwybodaeth. Roedd yr adroddiad yn dangos yr hyn a wnaed gan yr Awdurdod i wella Iechyd a Diogelwch, gan gynnwys cyfraddau’r digwyddiadau ac absenoldebau o'r gweithle.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth gefndir, manylion am Newidiadau Sefydliadol Iechyd a Diogelwch, manylion am y Grŵp Iechyd a Diogelwch, manylion am y System Rheoli Iechyd a Diogelwch, manylion am yr Archwiliad Iechyd a Diogelwch, gwybodaeth am Syndrom Dirgryniad Llaw Braich, canlyniadau’r Arolwg ar y Diwylliant Diogelwch, data digwyddiadau, manylion RIDDOR, y Cynllun Rheoli Asesu Risg a manylion Absenoldebau ac Iechyd.

**Nodwyd.**

**15. Amrywio’r Rheolau Sefydlog**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad oedd yn ceisio caniatâd yr Aelodau i amrywio'r Rheolau Sefydlog caffael i adnewyddu trefniadau’r

Awdurdod i brynu’r system GIS, ac adroddiadau ar ddau amrywiad i Reol Sefydlog 16 o ran prynu Offer hanfodol i Fonitro Iechyd a Diogelwch, a datrys mater sy’n ymwneud â’r Gweinydd Cyfnewid TG.

Roedd yr adroddiad yn egluro bod yr Awdurdod wedi cytuno ar Reolau Sefydlog Caffael i sicrhau ei fod yn bodloni gofynion cyfreithiol a gwerth am arian. Ychwanegwyd bod y Rheolau Sefydlog yn darparu ar gyfer eithriadau, pan nad oedd yn bosibl bodloni gofynion y Rheolau Sefydlog.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â gwerth am arian a'r risg o gael un cyflenwr ar gyfer gwasanaeth. Mewn ymateb, sicrhaodd y Swyddog yr Aelodau y canfuwyd mai'r opsiwn a gynigiwyd oedd yr opsiwn mwyaf cost effeithiol. Ychwanegwyd y byddai'r Tîm yn parhau i asesu pob opsiwn yn y dyfodol i sicrhau bod yr Awdurdod yn cael gwerth am arian lle bynnag y bo modd.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd T Evans, **penderfynwyd**;

i) cymeradwyo'r amrywiad i'r Rheolau Sefydlog i adnewyddu'r tanysgrifiad i’r system Esri ArcGIS Ar-lein ar y we, a chytuno i barhau â’r tanysgrifiad am y 3 blynedd hyd at 2027.
ii) nodi'r defnydd o Reol Sefydlog 16 contractau o ran caffael offer Iechyd a Diogelwch i reoli’r Syndrom Dirgryniad Llaw Braich.
iii) nodi'r defnydd o Reol Sefydlog 16 contractau o ran caffael cymorth i ddatrys mater Cyfnewid TG.

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Awdurdod y Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2024 heb eu diwygio.